



HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 29 Hydref 2013
Tabled on 29 October 2013

Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Social Services and Well-being (Wales) Bill

William Graham

252

Section 7, page 8, line 16, after 'promote', insert –

'the efficient and effective operation of a market in services for meeting care and support needs with a view to ensuring that any person in its area wishing to access services in the market –

- () has a variety of providers to choose from who (taken together) provide a variety of services;
 - () has a variety of high quality services to choose from;
 - () has sufficient information to make an informed decision about how to meet the needs in question.
- () The actions to be taken by a local authority under subsection (1) include, but are not limited to'.

Adran 7, tudalen 8, llinell 18, ar ôl 'hyrwyddo', mewnosoder –

'gweithrediad effeithlon ac effeithiol marchnad mewn gwasanaethau ar gyfer bodloni anghenion gofal a chymorth gyda golwg ar sicrhau bod gan unrhyw berson yn ei ardal sy'n dymuno cael mynediad at wasanaethau yn y farchnad –

- () amrywiaeth o ddarparwyr i ddewis o'u plith sydd (gyda'i gilydd) yn darparu amrywiaeth o wasanaethau;
- () amrywiaeth o wasanaethau o ansawdd uchel i ddewis o'u plith;
- () gwybodaeth ddigonol i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch sut i fodloni'r

anghenion o dan sylw.

- () Mae'r camau sydd i'w cymryd gan awdurdod lleol o dan is-adran (1) yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'.

William Graham

253

To insert a new section –

'() Carers: strategy

- (1) A local authority and a Local Health Board must jointly prepare and publish a strategy setting out how they will jointly or separately –
- (a) provide appropriate information and advice to carers,
 - (b) ensure that, where it falls to a local authority or Local Health Board to decide what services (if any) are to be provided to the carer or the person cared for, the carer is consulted before that decision is made, and
 - (c) ensure that the local authority or Local Health Board consults carers before it makes decisions of a general nature regarding the provision of services to or for carers and the persons they care for.
- (2) Each local authority and Local Health Board responsible under subsection (1) for the preparation and publication of a strategy must implement the strategy.'

I fewnosod adran newydd –

'() Gofalwyr: strategaeth

- (1) Rhaid i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol baratoi a chyhoeddi strategaeth ar y cyd yn nodi sut y byddant, ar y cyd neu ar wahân –
- (a) yn darparu gwybodaeth a chynghor priodol i ofalwyr,
 - (b) yn sicrhau, pan fo awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am benderfynu pa wasanaethau (os o gwbl) sydd i'w darparu i'r gofalwr neu'r person y gofelir amdano, yr ymgynghorir â'r gofalwr cyn i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, ac
 - (c) yn sicrhau bod yr awdurdod lleol neu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ymgynghori â gofalwyr cyn gwneud penderfyniadau cyffredinol ynghylch darparu gwasanaethau i neu ar gyfer gofalwyr a'r personau y maent yn gofalu amdanynt.
- (2) Rhaid i bob awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi strategaeth o dan is-adran (1) roi'r strategaeth ar waith.'

William Graham

254

To insert a new section –

'() Procedure for regulations under section 45

- (1) The Welsh Ministers must comply with this section before making regulations under section 45 to provide for proposals about the detail of the exercise of a power to impose a

charge under section 43.

- (2) The Welsh Ministers must consult –
 - (a) Local Health Boards,
 - (b) Community Health Councils,
 - (c) local authorities, and
 - (d) such other persons or bodies as appear to represent the interests of persons likely to be affected by the proposals.
- (3) If, following that consultation, the Welsh Ministers wish to proceed with the regulations they must lay before the National Assembly for Wales a document which –
 - (a) explains the proposals,
 - (b) sets the proposals out in the form of draft regulations, and
 - (c) gives details of the consultation under subsection (2).
- (4) No draft of regulations under section 45 to give effect to the proposals (“the final draft regulations”) may be laid before the National Assembly for Wales in accordance with this section until after the expiry of the period of 60 days beginning with the day on which the document relating to the proposals was laid before the National Assembly for Wales under subsection (3).
- (5) In calculating the period mentioned in subsection (4) no account shall be taken of any time during which the National Assembly for Wales is dissolved or is in recess for more than four days.
- (6) In preparing the final draft regulations the Welsh Ministers must consider any representations made during the period mentioned in subsection (4).
- (7) If the final draft regulations are laid before the National Assembly for Wales in accordance with this section the regulations must be accompanied by a statement of the Welsh Ministers giving details of –
 - (a) any representations considered in accordance with subsection (6), and
 - (b) any changes made to the proposals contained in the document laid before the National Assembly for Wales under subsection (3) which are given effect to in the final draft regulations.’.

I fewnosod adran newydd –

‘() Y weithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan adran 45

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â’r adran hon cyn gwneud rheoliadau o dan adran 45 i ddarparu ar gyfer cynigion ynghylch manylion yn ymwneud ag arfer pŵer i osod ffi o dan adran 43.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r canlynol –
 - (a) Byrddau Iechyd Lleol,
 - (b) Cyngorau Iechyd Cymuned,
 - (c) awdurdodau lleol, a
 - (d) y personau neu’r cyrff eraill hynny yr ymddengys eu bod yn cynrychioli

buddiannau personau yr effeithir arnynt yn ôl pob tebyg gan y cynigion.

- (3) Os bydd Gweinidogion Cymru, yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, yn dymuno bwrw ymlaen â'r rheoliadau, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddogfen—
 - (a) sy'n esbonio'r cynigion,
 - (b) sy'n gosod y cynigion ar ffurf rheoliadau drafft, ac
 - (c) sy'n rhoi manylion yr ymgynghoriad o dan is-adran (2).
- (4) Ni chaiff unrhyw reoliadau drafft o dan adran 45 i roi effaith i'r cynigion ("y rheoliadau drafft terfynol") gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r adran hon tan ar ôl i'r cyfnod o 60 diwrnod, sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y ddogfen ynglŷn â'r cynigion ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3), ddirwyn i ben.
- (5) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllir yn is-adran (4), rhaid peidio ag ystyried unrhyw amser pryd y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.
- (6) Wrth baratoi'r rheoliadau drafft terfynol rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (4).
- (7) Os caiff y rheoliadau drafft terfynol eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r adran hon rhaid i ddatganiad gan Weinidogion Cymru gyd-fynd â'r rheoliadau sy'n rhoi manylion—
 - (a) unrhyw sylwadau a ystyriwyd yn unol ag is-adran (6), a
 - (b) unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion a oedd wedi eu cynnwys yn y ddogfen a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3) ac y rhoddir effaith iddynt yn y rheoliadau drafft terfynol.'

William Graham

255

To insert a new section—

'() Procedure for regulations under section 54

- (1) The Welsh Ministers must comply with this section before making regulations under section 54 to provide for proposals about the detail of the exercise of a power to impose a charge under section 54.
- (2) The Welsh Ministers must consult—
 - (a) Local Health Boards,
 - (b) Community Health Councils,
 - (c) local authorities, and
 - (d) such other persons or bodies as appear to represent the interests of persons likely to be affected by the proposals.
- (3) If, following that consultation, the Welsh Ministers wish to proceed with the regulations they must lay before the National Assembly for Wales a document which—
 - (a) explains the proposals,

- (b) sets the proposals out in the form of draft regulations, and
 - (c) gives details of the consultation under subsection (2).
- (4) No draft of regulations under section 54 to give effect to the proposals (“the final draft regulations”) may be laid before the National Assembly for Wales in accordance with this section until after the expiry of the period of 60 days beginning with the day on which the document relating to the proposals was laid before the National Assembly for Wales under subsection (3).
- (5) In calculating the period mentioned in subsection (4) no account shall be taken of any time during which the National Assembly for Wales is dissolved or is in recess for more than four days.
- (6) In preparing the final draft regulations the Welsh Ministers must consider any representations made during the period mentioned in subsection (4).
- (7) If the final draft regulations are laid before the National Assembly for Wales in accordance with this section the regulations must be accompanied by a statement of the Welsh Ministers giving details of –
- (a) any representations considered in accordance with subsection (6), and
 - (b) any changes made to the proposals contained in the document laid before the National Assembly for Wales under subsection (3) which are given effect to in the final draft regulations.’.

I fewnosod adran newydd –

‘() Y weithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan adran 54

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â’r adran hon cyn gwneud rheoliadau o dan adran 54 i ddarparu ar gyfer cynigion ynghylch manylion yn ymwneud ag arfer pŵer i osod ffi o dan adran 54.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r canlynol –
- (a) Byrddau Iechyd Lleol,
 - (b) Cyngorau Iechyd Cymuned,
 - (c) awdurdodau lleol, a
 - (d) y personau neu’r cyrff eraill hynny yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau personau yr effeithir arnynt yn ôl pob tebyg gan y cynigion.
- (3) Os bydd Gweinidogion Cymru, yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, yn dymuno bwrw ymlaen â’r rheoliadau, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddogfen –
- (a) sy’n esbonio’r cynigion,
 - (b) sy’n gosod y cynigion ar ffurf rheoliadau drafft, ac
 - (c) sy’n rhoi manylion yr ymgynghoriad o dan is-adran (2).
- (4) Ni chaiff unrhyw reoliadau drafft o dan adran 54 i roi effaith i’r cynigion (“y rheoliadau drafft terfynol”) gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â’r adran hon tan ar ôl i’r cyfnod o 60 diwrnod, sy’n dechrau ar y diwrnod y cafodd y ddogfen ynglŷn â’r cynigion ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3),

ddirwyn i ben.

- (5) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllir yn is-adran (4), rhaid peidio ag ystyried unrhyw amser pryd y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.
- (6) Wrth baratoi'r rheoliadau drafft terfynol rhaid i Weindogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (4).
- (7) Os caiff y rheoliadau drafft terfynol eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r adran hon rhaid i ddatganiad gan Weinidogion Cymru gyd-fynd â'r rheoliadau sy'n rhoi manylion –
 - (a) unrhyw sylwadau a ystyriwyd yn unol ag is-adran (6), a
 - (b) unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion a oedd wedi eu cynnwys yn y ddogfen a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3) ac y rhoddir effaith iddynt yn y rheoliadau drafft terfynol.'

William Graham

256

Section 104, page 71, line 12, leave out subsection (1) and insert –

- () "Adults at risk" are adults who –
- (a) are unable to safeguard their own well-being, property, rights or other interests,
 - (b) are at risk of harm or abuse, or
 - (c) because they are affected by disability, mental disorder, illness or physical or mental infirmity, are more vulnerable to being harmed than adults who are not so affected.
- () An adult is at risk of harm or abuse for the purposes of subsection (*first subsection to be inserted by amendment 256*) if –
- (a) another person's conduct is causing (or is likely to cause) the adult to be harmed or abused, or
 - (b) the adult is engaging (or is likely to engage) in conduct which causes (or is likely to cause) self-harm.'

Adran 104, tudalen 71, llinell 13, hepgorer –

“oedolyn sy'n wynebu risg”, at ddibenion y Rhan hon, yn oedolyn sydd –

- (a) yn cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso,
- (b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac
- (c) nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso'

A mewnosoder –

“oedolion sy'n wynebu risg” yn oedolion –

- () nad ydynt yn gallu diogelu eu llesiant, eiddo, hawliau neu fuddiannau eraill eu hunain,

- () sy'n wynebu risg o niwed neu gam-drin, neu
 - () oherwydd yr effeithir arnynt gan anabledd, anhwylder meddwl, salwch, neu wendid meddwl neu gorfforol, sydd yn fwy agored i gael eu niweidio nag oedolion nad effeithir arnynt felly.
- (2) Mae oedolyn yn wynebu risg o gael ei niweidio neu ei gam-drin at ddibenion is-adran (*yr is-adran cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan welliant 256*) –
- (a) os yw ymddygiad person arall yn peri (neu'n debygol o beri) i'r oedolyn gael ei niweidio neu ei gam-drin, neu
 - (b) os yw'r oedolyn yn ymgymryd (neu'n debygol o ymgymryd) ag ymddygiad sy'n peri (neu'n debygol o beri) hunan-niwed.'

William Graham

257

To insert a new section –

'() Removal orders

- (1) A local authority may apply to a justice of the peace for an order ("a removal order") which authorises –
- (a) an authorised officer of the local authority to move a specified person to a specified place within 72 hours of the order being made, and
 - (b) the local authority to take such reasonable steps as it thinks fit for the purpose of protecting the moved person from harm.
- (2) A removal order expires 7 days (or such shorter period as may be specified in the order) after the day on which the specified person is moved in pursuance of the order.'

I fewnosod adran newydd –

'() Gorchmynion symud

- (1) Caiff awdurdod lleol wneud cais i ynad heddwch am orchymyn ("gorchymyn symud") sy'n awdurdodi –
- (a) swyddog awdurdodedig o'r awdurdod lleol i symud person penodedig i fan penodedig o fewn 72 awr ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud, a
 - (b) yr awdurdod lleol i gymryd unrhyw gamau rhesymol y gwêl yn dda at ddiben amddiffyn y person a symudwyd rhag cael ei niweidio.
- (2) Daw gorchymyn symud i ben saith diwrnod (neu gyfnod llai a gaiff ei bennu yn y gorchymyn) ar ôl y diwrnod y symudir y person penodedig yn unol â'r gorchymyn.'

William Graham

258

To insert a new section –

'() Criteria for granting a removal order

- (1) A justice of the peace may grant a removal order only if satisfied –
- (a) that the person in respect of whom the order is sought is an adult at risk who is

- likely to be seriously harmed if not moved to another place, and
- (b) as to the availability and suitability of the place to which the adult at risk is to be moved.
- (2) A removal order may require a local authority to allow any specified person to have contact with the adult at risk to whom the order relates –
- (a) at any specified time during which the order has effect, and
 - (b) in accordance with any specified conditions.
- (3) But the justice of the peace, before including such a requirement, must have regard to –
- (a) any representations made by the local authority as to whether persons should be allowed to have contact with the adult at risk, and
 - (b) any relevant representations made by –
 - (i) the adult at risk,
 - (ii) any person who wishes to be able to have contact with the adult at risk, and
 - (iii) any other person who has an interest in the adult at risk's well-being or property.'.

I fewnosod adran newydd –

'() Y meini prawf ar gyfer rhoi gorchymyn symud

- (1) Caiff ynad heddwch roi gorchymyn heddwch dim ond os yw wedi cael ei fodloni –
- (a) bod y person y ceisir y gorchymyn ar ei ran yn oedolyn sy'n wynebu risg ac sy'n debygol o gael ei niweidio'n ddifrifol os na symudir ef i fan arall, a
 - (b) o ran argaeledd ac addasrwydd y man y symudir yr oedolyn sy'n wynebu risg iddo.
- (2) Caiff gorchymyn symud ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ganiatáu i unrhyw berson penodedig gael cyswllt â'r oedolyn sy'n wynebu risg ac y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef –
- (a) ar unrhyw adeg benodedig y mae'r gorchymyn yn cael effaith, a
 - (b) yn unol ag unrhyw amodau penodedig.
- (3) Ond rhaid i'r ynad heddwch, cyn cynnwys gofyniad o'r fath, roi sylw i –
- (a) unrhyw sylwadau a wnaed gan yr awdurdod lleol o ran a ddylid caniatáu i bersonau gael cyswllt â'r oedolyn sy'n wynebu risg, a
 - (b) unrhyw sylwadau perthnasol a wnaed gan –
 - (i) yr oedolyn sy'n wynebu risg,
 - (ii) unrhyw berson sy'n dymuno y gall gael cyswllt â'r oedolyn sy'n wynebu risg, a
 - (iii) unrhyw berson arall y mae ganddo ddiddordeb yn llesiant neu eiddo'r oedolyn sy'n wynebu risg.'.

William Graham

259

To insert a new section –

‘(1) Right to move an adult at risk

- (1) An authorised officer of a local authority may enter any place in order to move an adult at risk from the place in pursuance of a removal order.
- (2) A right to enter any place under subsection (1) includes a right to enter any adjacent place for the same purpose.’.

I fewnosod adran newydd –

‘(1) Yr hawl i symud oedolyn sy’n wynebu risg

- (1) Caiff swyddog awdurdodedig awdurdod lleol gael mynediad i unrhyw fan er mwyn symud oedolyn sy’n wynebu risg o’r man hwnnw yn unol â gorchymyn symud.
- (2) Mae hawl i gael mynediad i unrhyw fan o dan isadran (1) yn cynnwys hawl i gael mynediad i unrhyw fan cyfagos am yr un diben.’.

William Graham

260

To insert a new section –

‘(1) Variation or recall of removal order

- (1) A justice of the peace may vary or recall a removal order if satisfied that the variation or recall is justified by a change in the facts or circumstances in respect of which the order was granted or, as the case may be, last varied.
- (2) A removal order may not be varied so as to authorise the local authority to do anything after the day which falls 7 days after the day on which the adult at risk to whom the order relates is moved in pursuance of the order.
- (3) Where an adult at risk has been moved from any place in pursuance of a removal order which is recalled, the justice of the peace may direct the local authority to –
 - (a) return the adult to that place, or
 - (b) take the adult to any other place which the justice of the peace, having regard to the adult's wishes, may specify.
- (4) A removal order may be varied or recalled only on the application of –
 - (a) the adult at risk to whom the order relates,
 - (b) any person who has an interest in the adult at risk's well-being or property, or
 - (c) the local authority.’.

I fewnosod adran newydd –

‘(1) Amrywiad ar orchymyn symud neu ei alw yn ôl

- (1) Caiff ynad heddwch amrywio gorchymyn symud neu ei alw yn ôl os yw wedi’i fodloni bod modd cyfiawnhau’r amrywiad neu’r penderfyniad i’w alw yn ôl gan newid yn y ffeithiau neu’r amgylchiadau y rhoddwyd y gorchymyn neu, yn ôl y digwydd, y cafodd

ei amrywio ddiwethaf.

- (2) Ni chaiff gorchymyn symud ei amrywio i awdurdodi'r awdurdod lleol i wneud unrhyw beth yn unol â'r gorchymyn ar ôl y diwrnod sy'n digwydd saith diwrnod ar ôl y diwrnod y symudir yr oedolyn sy'n wynebu risg y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef.
- (3) Pan fydd oedolyn sy'n wynebu risg wedi'i symud o unrhyw fan yn unol â gorchymyn symud a gaiff ei alw yn ôl, caiff yr ynad heddwch gyfarwyddo'r awdurdod lleol i—
 - (a) dychwelyd yr oedolyn i'r man hwnnw, neu
 - (b) cymryd yr oedolyn i unrhyw fan arall y bydd yr ynad heddwch, gan roi sylw i ddymuniadau'r oedolyn, yn ei bennu.
- (4) Caiff gorchymyn symud ei amrywio neu ei alw yn ôl dim ond ar gais—
 - (a) yr oedolyn sy'n wynebu risg y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef,
 - (b) unrhyw berson y mae ganddo ddiddordeb yn llesiant neu eiddo'r oedolyn sy'n wynebu risg, neu
 - (c) yr awdurdod lleol.'

William Graham

261

To insert a new section—

'(1) Protection of a moved person's property

- (1) The local authority must take reasonable steps to prevent any property owned or controlled by a person moved in pursuance of a removal order from being lost or damaged because—
 - (a) the moved person is unable to protect, care for or otherwise deal with it, and
 - (b) no other suitable arrangements have been or are being made for the purposes of preventing such loss or damage.
- (2) An authorised officer of the local authority may enter any place which the authority knows or believes to contain any property in respect of which it has a duty under subsection (1) in order to enable or assist the local authority to perform that duty.
- (3) A right to enter any place under subsection (2) includes a right to enter any adjacent place for the same purpose.
- (4) An authorised officer of the local authority who finds any property in respect of which the authority has a duty under subsection (1) may do anything which the officer considers reasonably necessary in order to prevent the property from being lost or damaged, and may, in particular, move the property to another place.
- (5) The local authority is not entitled to recover from a moved person any expenses it incurs in performing functions under this section in relation to property owned or controlled by that person.
- (6) The duty imposed by subsection (1) applies only while the removal order concerned has effect.
- (7) A local authority which moves any property in pursuance of the duty imposed by subsection (1) must, as soon as is reasonably practicable after the removal order

concerned ceases to have effect, return the property to the adult concerned.’.

I fewnosod adran newydd –

‘() **Gwarchod eiddo person a symudir**

- (1) Rhaid i’r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i atal unrhyw eiddo sy’n cael ei berchenogi neu ei reoli gan berson a symudir yn unol â gorchymyn symud rhag cael ei golli neu ei ddifrodi –
 - (a) am nad yw’r person yn gallu gwarchod, gofalu neu ymdrin ag ef fel arall, a
 - (b) am nad oes trefniadau addas eraill wedi eu gwneud neu yn cael eu gwneud at ddibenion atal colled neu ddifrod o’r fath.
- (2) Caiff swyddog awdurdodedig o’r awdurdod lleol gael mynediad i unrhyw fan y mae’r awdurdod yn gwybod neu yn credu sy’n cynnwys unrhyw eiddo y mae ganddo ddyletswydd yn ei gylch o dan is-adran (1) er mwyn galluogi neu gynorthwyo’r awdurdod lleol i gyflawni’r ddyletswydd honno.
- (3) Mae hawl i gael mynediad i unrhyw fan o dan is-adran (2) yn cynnwys hawl i gael mynediad i unrhyw fan cyfagos at yr un diben.
- (4) Caiff swyddog awdurdodedig o’r awdurdod lleol sy’n dod o hyd i unrhyw eiddo y mae gan yr awdurdod ddyletswydd yn ei gylch o dan is-adran (1) wneud unrhyw beth y mae’r swyddog yn ei ystyried yn rhesymol er mwyn atal yr eiddo rhag cael ei golli neu ei ddifrodi, a chaiff, yn benodol, symud yr eiddo i le arall.
- (5) Nid oes gan yr awdurdod lleol hawl i adennill unrhyw dreuliau wrth gyflawni swyddogaethau o dan yr adran hon gan berson a symudir mewn perthynas ag eiddo sy’n cael ei berchenogi neu ei reoli gan y person hwnnw.
- (6) Mae’r ddyletswydd a osodir gan is-adran (1) ond yn gymwys tra bo’r gorchymyn symud o dan sylw yn cael effaith.
- (7) Rhaid i awdurdod lleol sy’n symud unrhyw eiddo yn unol â’r ddyletswydd a osodir gan is-adran (1) ddychwelyd yr eiddo i’r oedolyn o dan sylw cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol ar ôl i’r gorchymyn symud o dan sylw ddod i ben.’.

William Graham

262

Section 112, page 75, line 39, leave out ‘may’ and insert ‘must’.

Adran 112, tudalen 75, llinell 40, hepgorer ‘Caiff rheoliadau’ a mewnosoder ‘Rhaid i reoliadau’.

William Graham

263

Section 143, page 88, line 31, after ‘authority’, insert ‘and its relevant partners’.

Adran 143, tudalen 88, llinell 34, ar ôl ‘lleol’, mewnosoder ‘a’i bartneriaid perthnasol’.

William Graham

264

Section 143, page 88, after line 33, insert –

‘() the employees of a relevant partner who exercise the relevant partner’s functions,’.

Adran 143, tudalen 88, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

‘() cyflogeion partner perthnasol sy’n arfer swyddogaethau’r partner perthnasol,’.

William Graham 265

Section 143, page 88, line 34, leave out ‘each of the authority’s’ and insert ‘the authority and its’.

Adran 143, tudalen 88, llinell 37, hepgorer ‘pob un o bartneriaid perthnasol yr awdurdod’ a mewnosoder ‘yr awdurdod a’i bartneriaid perthnasol’.

William Graham 266

Section 143, page 89, line 1, after ‘authority’, insert ‘and its relevant partners’.

Adran 143, tudalen 89, llinell 1, ar ôl ‘awdurdod’, mewnosoder ‘a’i bartneriaid perthnasol’.

William Graham 267

Section 143, page 89, line 35, after ‘provide’, insert ‘or secure the provision of’.

Adran 143, tudalen 89, llinell 38, ar ôl ‘darparu’, mewnosoder ‘neu sicrhau y darperir’.

William Graham 268

Section 145, page 91, line 15, after ‘authority’, insert ‘or one of its relevant partners’.

Adran 145, tudalen 91, llinell 16, ar ôl ‘lleol’, mewnosoder ‘neu un o’i bartneriaid perthnasol’.

William Graham 269

Section 145, page 91, line 16, leave out ‘social services functions’ and insert ‘functions under section 143’.

Adran 145, tudalen 91, llinell 17, hepgorer ‘gwasanaethau cymdeithasol’ a mewnosoder ‘o dan adran 143’.

William Graham 270

Section 145, page 91, line 20, after ‘authority’, insert ‘or one of its relevant partners’.

Adran 145, tudalen 91, llinell 21, ar ôl ‘lleol’, mewnosoder ‘neu un o’i bartneriaid perthnasol’.

William Graham 271

Section 145, page 91, line 27, after ‘authority’, insert ‘or relevant partner’.

Adran 145, tudalen 91, llinell 28, ar ôl ‘lleol’, mewnosoder ‘neu bartner perthnasol’.

William Graham 272

Section 145, page 91, line 29, leave out ‘making the request’.

Adran 145, tudalen 91, llinell 30, hepgorer ‘sy’n gwneud y cais’.

William Graham

273

Section 145, page 91, line 31, after 'authority', insert 'or relevant partner'.

Adran 145, tudalen 91, llinell 32, ar ôl 'lleol', mewnosoder 'neu bartner perthnasol'.

William Graham

274

Section 145, page 91, line 33, leave out 'making the request'.

Adran 145, tudalen 91, llinell 34, hepgorer 'sy'n gwneud y cais'.

William Graham

275

Section 165, page 106, after line 35, insert—

'() regulations to which section (*section to be inserted by amendment 254*) applies;'

Adran 165, tudalen 106, ar ôl llinell 37, mewnosoder—

'() rheoliadau y mae adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 254*) yn gymwys iddynt;'

William Graham

276

Section 165, page 106, after line 35, insert—

'() regulations to which section (*section to be inserted by amendment 255*) applies;'

Adran 165, tudalen 106, ar ôl llinell 37, mewnosoder—

'() rheoliadau y mae adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 255*) yn gymwys iddynt;'